## ATODLEN 15

### Mesurau arbennig ar gyfer rheoli Pydredd cylch tatws

**Deunydd sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau neu wrthrychau sy'n halogedig neu'n halogedig o bosibl â Phydredd cylch tatws**

**3.** Caiff hysbysiad ei gwneud yn ofynnol—

(a) bod deunydd halogedig sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yn cael ei waredu drwy ei ddinistrio neu drwy unrhyw fesur arall sy'n cydymffurfio â phwynt 1 o Atodiad IV i Gyfarwyddeb 93/85/EEC;

(b) bod deunydd sy'n halogedig o bosibl sy'n dueddol o gael plâu neu glefydau yn cael ei ddefnyddio neu ei waredu yn unol â phwynt 2 o Atodiad IV i Gyfarwyddeb 93/85/EEC;

(c) bod gwrthrych sy'n halogedig neu wrthrych sy'n halogedig o bosibl yn cael ei—

(i) gwaredu drwy ei ddinistrio; neu

(ii) glanhau a'i ddiheintio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg adnabyddadwy o ledaenu Pydredd cylch tatws.